Annwyl bawb

Mae'r diweddariad a'r newyddlen hon yn ein gweld ni mewn cyfnod hollol ddigynsail. Mae argyfwng Covid-19 yn symud yn gyflym ac yn cael effaith fyd-eang ar ein bywydau ni i gyd, ac rydyn ni'n cydnabod yr effaith uniongyrchol a dwfn y mae'n ei chael ar fusnesau bwyd a diod yng Nghymru.

Fel Bwrdd, ni yw llais y diwydiant yng Nghymru ac rydyn ni am roi sicrwydd i chi ein bod ni yma i gynnig arweiniad a chefnogaeth yn y cyfnod eithriadol o anodd yma.

Rydyn ni mewn cysylltiad dyddiol â Llywodraeth Cymru i gyfleu'r blaenoriaethau a'r sialensiau allweddol sy'n wynebu ein diwydiant ac i weithio gyda'n gilydd i ddod o hyd i atebion effeithiol - yn gyflym!

Rydyn ni'n gweithio gyda'n gilydd i ddod o hyd i atebion effeithiol trwy'r cyfryngau cymdeithasol i alluogi cwmnïau i fenthyca sgiliau a staff pan fo angen. Mae hyn yn dilyn adborth cynnar gan y diwydiant fod rhai cwmnïau'n gorfod colli staff medrus oherwydd cwymp mewn galw, tra bod gan eraill angen dybryd am staff medrus oherwydd absenoldebau ynghyd â galw uwch am eu gwasanaethau neu eu cynnyrch. Ar hyn o bryd, mae hyn yn cael ei gyflawni trwy grŵp Facebook - chwiliwch am Gydweithfa Gweithluoedd Bwyd a Diod Cymru (**Welsh Food and Drink Workforce Collaboration).**

Mae'r Bwrdd a Llywodraeth Cymru'n lobïo ar lefel y DU hefyd am y deilliannau a'r cymorth gorau posibl ar gyfer y diwydiant yng Nghymru. Rydyn ni'n sicrhau bod llais gan Gymru yn San Steffan ac mewn cyfarfodydd Cobra, a bod y wlad yn cael ystyriaeth ym mhob ymateb i'r sefyllfa gyfredol a'i heffaith ar y diwydiant. Mae hi'n bwysicach nag erioed nad yw Cymru'n cael ei gwthio i'r cyrion a bod ein lleisiau'n cael eu clywed.

Hyd yn oed yn y cyfnod argyfyngus yma, bydd Brexit yn parhau i fod yn fater o bwys i'n diwydiant. Er ein bod ni wedi ymadael â'r Undeb Ewropeaidd yn dechnegol erbyn hyn, mae natur y berthynas at y dyfodol yn ansicr o hyd. Ym mis Chwefror fe

siaradais i â rhaglen Country Focus y BBC am Brexit a gwytnwch diwydiant bwyd a diod Cymru, a pha gamau y gall busnesau eu cymryd i baratoi. Mae'r cyngor blaenorol yn dal i sefyll, a byddwn ni'n gweithio ar hyn er mwyn helpu'r diwydiant i ymateb i'r holl sialensiau sy'n ein hwynebu.

Mae arloesi a chydweithio, hyd yn oed yn wyneb Brexit a Choronafirws, wedi bod yn gryfderau allweddol i'n diwydiant erioed ac wedi ein helpu ni i dyfu'r sector â balchder i'r pwynt lle'r ydyn ni heddiw. Trwy barhau yn yr ysbryd yma o rannu syniadau a'n cynorthwyo ein gilydd, byddwn ni mewn gwell sefyllfa i godi i'r sialens ddiweddaraf yma.

Croeso mawr i chi gysylltu â mi i rannu eich syniadau a'ch cwestiynau fel arfer. Rydyn ni yma i helpu ac yn gadarnach gyda'n gilydd. Rwy'n cymryd y cam anarferol o rannu fy nghyfeiriad gwaith personol i'w e-bostio yn ystod yr argyfwng yma. Os oes unrhyw bryderon gennych ac angen dybryd i ni ddatrys unrhyw beth yn y sector bwyd a diod, e-bostiwch fi yn andy.richardson@volac.com. Ac fe wnaf i fy ngorau glas i helpu am ein bod ni i gyd yn y sefyllfa yma gyda'n gilydd.

**Andy Richardson, Cadeirydd Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru**